

## Dwylo rhewllyd

### Byddwch angen:

- Maneg rwber
- Dŵr
- Trysor: rhowch gynnis ar eitemau bach fel botymau, gleiniau a secwin
- Dysgl/hambwrdd

### Dull:

- Llenwch eich maneg rwber gyda dŵr
- Rhowch y trysorau i mewn (ceisiwch gael rhai yn y bysedd yn ogystal â chledr y faneg)
- Clymwch ben y faneg
- Rhowch y faneg lawn yn y rhewgell, fel y bydd yn barod i'w defnyddio y diwrnod wedyn



# DYSGU DRWY CHWARAE - Dwylo rhewllyd

- Pan mae'n teimlo'n hollol galed, piliwch y faneg rwber yn ôl i ddatgelu'r llaw rew
- Efallai y byddwch angen torri'r faneg i ffwrdd os yw'n anodd ei philio i ffwrdd
- Rhowch y llaw rew ar fowlen/ hambwrdd i gasglu'r dŵr wrth i'r llaw doddi
- Wrth iddi doddi, bydd y trysorau bach yn cael eu datgelu
- Gall eich plentyn gyflymu'r broses doddi drwy dywallt dŵr cynnes ar y llaw rew, neu geisio tywallt ychydig o halen
- Mae'r gweithgaredd hwn yn dda ar gyfer sgiliau arsylwi eich plentyn a bydd yn ei helpu i ddeall y broses doddi yn well

## Pam ddim?

- Ychwanegu ambell ddiferyn o liw bwyd i liwio'r dŵr?

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Mae hwn yn weithgaredd chwarae ar gyfer y synhwyrau fydd yn para am oriau
- Defnyddiwch y gweithgaredd hwn i helpu eich plentyn i ddarganfod oerni a sut mae rhew yn toddi a dod o hyd i drysorau bach ar hyd y ffordd



## RHYBUDD:

Mae angen goruchwyliaeth ofalus gyda darnau bach!